Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

National Assembly for Wales
Public Accounts Committee

Rebecca Evans AC
Y Gweinidog Tai ac Adfywio
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

24 Tachwedd 2017

Rhaglen Cefnogi Pobl Llywodraeth Cymru

Annwyl Rebecca,

Yn ei gyfarfod ar 20 Tachwedd 2017, cymerodd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus dystiolaeth gan Gartrefi Cymunedol Cymru a Chymorth Cymru am Raglen Cefnogi Pobl Llywodraeth Cymru.

Yn ystod y sesiwn dystiolaeth, dywedodd nifer o dystion fod ganddynt bryderon sylweddol ynghylch cynigion Llywodraeth Cymru ar gyfer y gyllideb, a oedd yn disgrifio roedd Llywodraeth Cymru yn ystyried creu un grant ar gyfer ymyrraeth gynnar, atal problemau a chefnogaeth yn lle'r amrywiaeth o grantiau sydd i'w cael ar hyn o bryd. Cyflwynwyd tystiolaeth gref i'r Pwyllgor o blaid parhau i neilltuo arian ar gyfer y rhaglen.

Mae'r Pwyllgor yn nodi bod Llywodraeth Cymru, yn ei chynigion ar gyfer y Gyllideb yn dweud:

Byddai un grant yn golygu bod awdurdodau lleol a phartneriaid byrddau gwasanaethau cyhoeddus yn gallu cyd-drefnu gwasanaethau yn well er mwyn cyflawni amcanion llesiant. Byddai hyn yn helpu i ailddylunio gwasanaethau yn unol ag egwyddorion ac amcanion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Byddai un grant mwy o faint yn cael gwared â'r cyfyngiadau sy'n dod yn sgil grantiau unigol llai, a gellid defnyddio'r cyllid i gyflawni anghenion y penderfynwyd arnynt yn lleol mewn ffordd sy'n gwneud synnwyr ar lefel leol. Byddai hyn yn cael gwared â'r rhwystrau artiffisial rhag gwasanaeth effeithiol. Byddai cydgysylltu'r broses weinyddu yn fwy a'i symleiddio hefyd yn lleihau'r fiwrocratiaeth sy'n gysylltiedig â grantiau, gan helpu i sicrhau'r arbedion effeithlonrwydd o £13.4m sydd eu hangen "

Yn eu tystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, dywedodd Cartrefi Cymunedol Cymru:

"Welsh Government is working, via the funding flexibilities pathfinder project, to roll Supporting People into one grant, along with other Tackling Poverty funds, across 7 LAs and in the other LAs to provide 15% flexibility between grant streams. While CHC welcomes any approach which will allow for alignment of strategic priorities and reduction in bureaucracy, we remain concerned about what this move means for the long-term protection of housing-related support in Wales."

Yn eu tystiolaeth lafar, amlinellodd Cartrefi Cymunedol Cymru a Chymorth Cymru ragor o fanylion am eu pryderon ynghylch y ffaith bod y cynigion i uno Rhaglen Cefnogi Pobl â rhaglenni Teuluoedd yn Gyntaf, Dechrau'n Deg a Chymunedau yn Gyntaf yn ystod blwyddyn 2, wedi'u gwneud heb ymgynghori â'r sector Cefnogi Pobl. Maent yn credu bod rhaglen Cefnogi Pobl yn debygol o golli ei gwerth i rai o'r grwpiau sydd wedi'u hymyleiddio fwyaf yng Nghymru os derbynnir y cynigion, a gallai'r canlyniadau i'r rhai mwyaf agored i niwed yn ein cymdeithas fod yn ddifrifol.

O ystyried pryderon cryf y tystion ynghylch dyfodol y Rhaglen, mae'r Pwyllgor yn awyddus i dynnu'ch sylw at y dystiolaeth a gawsom ac yn gofyn ichi ystyried y materion a godwyd yn ofalus yn ystod y trafodaethau i bennu'r gyllideb derfynol.

Rwy'n amgáu linc i'r trawsgrifiad o gyfarfod y Pwyllgor ar 20 Tachwedd 2017 ynghyd â chopïau o bapurau ategol y ddau sefydliad.

Yn gywir,

Nick Ramsay AC
Cadeirydd

cc: Mark Drakeford AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid

John Griffiths AC, Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau

Simon Thomas AC, Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid